OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 734

## Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

## RHAN IV

Gofynion Ychwanegol sy'n Gymwys i Ysbytai Annibynnol

Pennod 2

Ysbytai Annibynnol Lle y Darperir Gwasanaethau Rhestredig Penodol

**Gwasanaethau obstetrig – staffio**

**42.**—(1) Mae'r rheoliad hwn a rheoliad 43 yn gymwys i ysbyty annibynnol lle darperir gwasanaethau obstetrig ac, mewn perthynas â geni plant, gwasanaethau meddygol.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig benodi Pennaeth Gwasanaethau Bydwreigiaeth i fod yn gyfrifol am reoli'r ddarpariaeth o wasanaethau bydwreigiaeth yn yr ysbyty annibynnol, ac yn ogystal, ac eithrio mewn achosion lle y darperir y gwasanaethau obstetrig yn yr ysbyty gan fydwragedd yn bennaf, Pennaeth Gwasanaethau Obstetrig y cynhwysir ei enw yn y gofrestr feddygol arbenigol mewn perthynas ag arbenigedd mewn obstetreg, i fod yn gyfrifol am reoli'r ddarpariaeth o wasanaethau obstetrig.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y proffesiynolyn gofal iechyd sy'n bennaf cyfrifol am ofalu am fenywod beichiog a chynorthwyo adeg geni plant yn fydwraig, yn ymarferydd cyffredinol sydd â chymwysterau priodol, neu'n ymarferydd meddygol y cynhwysir ei enw yn y gofrestr feddygol arbenigol mewn perthynas ag arbenigedd mewn obstetreg.

(4) Os darperir y gwasanaethau obstetrig mewn ysbyty annibynnol yn bennaf gan fydwragedd, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gwasanaethau ymarferydd meddygol sy'n gymwys i ddelio ag argyfyngau obstetrig ar gael bob amser.

(5) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod proffesiynolyn gofal iechyd sy'n gymwys i ymgymryd â dadebru baban newydd anedig ar gael yn yr ysbyty bob amser a bod sgiliau'r person hwnnw yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac, os oes angen, eu diweddaru.